Cylchlythyr Rhif 1

Annwyl Gyfaill,

Mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teulu yn cadw'n iach yn ystod y cyfnod digyffelyb hwn. Trist iawn yw meddwl na fedrwn ddod at ein gilydd i werthfawrogi pythefnos o gerddoriaeth fendigedig yn Sir Benfro eleni. Mae na wacter oherwydd yn awr bydde'r Ŵyl yn dechrau! Bydd rhan fwyaf o'r rhaglen â nodir ar ein gwefan www.fishguardmusicfestival.com yn cael ei ohirio tan 2021. Cynhwysir berfformiadau gan Sinfonia Cymru, Alis Huws, Pedwarawd Marmen, Jams Coleman, Cerddorfa ac Ensembl Siambr Opera Cenedlaethol Cymru, London Tango Quintet, Cerddorfa Ieuenctid Cymru, Meraki Duo, Llŷr Williams, Kabantu, Jamal Aliyev a Jocelyn Freeman, Palisander, Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd ac Only Boys Aloud.

Gobeithiaf eich bod chi fel fi yn falch fod cynifer o'r artistiaid gwych hyn wedi cytuno i ddod atom yn 2021. Gyda hyn bu rhaid gohirio perfformiadau gan rhai o'r artistiaid oedd wedi cytuno i ddod y flwyddyn honno tan 2022. Ar y cyfan bydd y rhaglenni yn parhau yr un fath ac er mae 2020 yw blwyddyn dathlu genedigaeth Beethoven yn 250, gellir mwynhau a dathlu ei gerddoriaeth unrhywbryd! Hefyd hoffwn nodi y bydd Carlo Rizzi yn arwain Cerddorfa Ieuenctid Cymru yn 2021. Rwyn falch o ddweud fod Steph Power wedi cwbwlhau Camddwr Bleiddiaid sef y gwaith â gomisiynwyd ar gyfer Alis Huws ond bydd rhaid aros tan 2021 i'w glywed! Mae Alis newydd fy hysbysu fod dyddiad newydd ar gyfer ei datganiad yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd sef 16 Chwefror 2021. Rwyn siwr y bydde hi a'r Neuadd yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Dros y misoedd nesa byddaf yn ysgrifennu cyfres o gylchlythyron gan gyflwyno yn eu tro mewn sgwrs, erthygl neu berfformiad, rhai o'r artistiaid fydd yn dod atom yn 2021. Danfonir rhain at y sawl sydd wedi tanysgrifio i dderbyn gwybodaeth drwy ebost ac felly os ydych yn derbyn hwn drwy'r post ac os nad ydych eisoes wedi gwneud, ac os hoffech eu derbyn, a fyddech gystal â mynd i'r dudalen 'Cyswllt' ar ein gwefan er mwyn derbyn y wybodaeth yn electronig

www.fishguardmusicfestival.com/copy-of-contact-1

Fe gedwir eich manylion yn ddiogel ac ni fydd yn cael ei rannu gydag unrhywun arall.

Ond hoffwn rannu y canlynol â dderbyniais gan Jocelyn Freeman yn ddiweddar gan obeithio y bydd o ddiddordeb i chi:

"*Stuart Jackson (tenor) and I recorded a disc of songs together around two years ago, and it will finally be released on 17th July! We really put our all into it and are hoping it will do well. Part of our pre-release plans are to try to secure a significant number of pre-release orders, as these are counted as sales in the first week and could land us in the top 10 of the charts if we get 100! Do you feel able to help us out by ordering one before 17th July?! The links are here, and I would be so grateful if you could join us. https://orchid-music.lnk.to/stuart_jocelyn*."

Diolch o galon am eich cefnogaeth. Arhoswch yn ddiogel ac iach ac edrychaf ymlaen at cysylltu eto yn fuan.

Gyda chofion cynnes iawn

Gillian

Gillian Green MBE (Cyfarwyddwr Artistig) Gŵyl Gerdd Ryngwladol Abergwaun a Gorllewin Cymru